

Cydbwyllgor Bargaen Ddinesig P-RC Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Archwiliwyd 2020/21



Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21

Cwmpas Cyfrifoldeb

1. Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) yn rhaglen unigryw o weithio cydweithredol i alluogi newid economaidd, cysyllted digidol gwell, sgiliau a chyfleoedd addysg gwell, ac adfywio ledled y rhanbarth. Mae'r Fargen Ddinesig yn dod i gyfanswm o £1.229 biliwn ac mae'n cynnwys £734 miliwn a ddyrannwyd i Fetro De Cymru, sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru ac felly sydd y tu allan i gwmpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.
2. Mae'r balans cyllid yn ymwneud â'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach o £495 miliwn a ariennir o Grant Trysorlys EM o £375 miliwn (a ddarperir dros gyfnod o 20 mlynedd) a chyfraniadau cyfalaf Llywodraeth Leol o £120 miliwn.
3. Goruchwylir BDdPRC gan Gydbwyllgor, a sefydlwyd ar 1 Mawrth 2017 ac sy'n cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r cynghorau canlynol: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Cadeirir y Cydbwyllgor gan y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a 2020/21 yw 4^{edd} flwyddyn weithredol lawn y pwyllgor.
4. Mae'r Cydbwyllgor yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir busnes BDdPRC yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Mae'n goruchwyllo Cronfa Fuddsoddi Ehangach y Fargen Ddinesig o £495 miliwn gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni ei rôl, mae Cydbwyllgor Bargen Ddinesig P-RC yn gyfrifol am roi ar waith drefniadau priodol er mwyn llywodraethu ei faterion.
5. Mae'r datgeliad llywodraethu canlynol yn asesiad yn unol ag egwyddorion y fframwaith 'Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol' a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Mae'r datgeliad hwn yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2018.

Diben y Fframwaith Llywodraethu, Cefndir a Datblygiadau

6. Mae llywodraethu'r BDdPRC yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sydd ar waith i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir fel y'u hadolygwyd trwy gymhwyso Fframwaith Llywodraethu CIPFA/SOLACE.
7. O 2020/21 ymlaen, mae'r DLIB hefyd yn ystyried cyflwyno Cod Rheoli Ariannol (Cod RhA) CIPFA 2019, fel sy'n berthnasol i strwythurau'r Cydbwyllgor.

Cefndir

8. Fel y nodwyd uchod, 2020/21 yw pedwaredd flwyddyn weithredol lawn BDdPRC ac felly mae'r trefniadau llywodraethu'n dechrau ymsefydlu ac aeddfedu.
9. Mae Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig wedi gwneud y datganiad canlynol er mwyn darparu'r cyd-destun priodol i'r gwaith a gwblhawyd fel rhan o DLIB 2020/21:

"Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur ac eto'n gynhyrchol i BDdPRC ac yn un lle teimlwyd grym llawn y pandemig Covid-19 a'r heriau y mae wedi'u cyflwyno. Bu llawer o ddatblygiadau, megis symud i gyfarfodydd rhithwir ar-lein; cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar gyfer Cydbwyllgorau Corfforaethol newydd, gweithredu'r set flaenoriaethau Covid-19; a datblygu'r Cynllun Busnes Strategol 5 mlynedd nesaf a Phrosbectws Buddsoddi newydd – Llewyrch yn ein Lle.

Eleni hefyd gwelwyd gwaith datblygu a darparu prosiectau cynyddol gyda'r set gyntaf o brosiectau cymeradwy, sydd bellach yn cael eu cyflawni gan ddod i gyfanswm o tua £198M. At hynny, 2020/21 oedd y flwyddyn y cynhaliwyd Adolygiad Gateway, yn ogystal â chyflwyno/datblygu nifer o flaenoriaethau allweddol, megis:

- *Symud i ffyrdd newydd o weithio. Mae'r pandemig Covid wedi gofyn am fath newydd o ystwythder a symud y fframwaith llywodraethu P-RC cyfan i gyfarfodydd rhithwir ar-lein. Arweiniwyd hyn gan Swyddog Monitro'r Cydbwyllgor ac mae wedi galluogi tîm P-RC i fod yn fwy cynhyrchol a symud yn gyflymach, gan weithredu i ymateb i'r heriau a ddaeth yn sgil Covid-19 yn ogystal â sicrhau'r gwerth a'r cyfleoedd etifeddol mwyaf posibl;*
- *Set flaenoriaethau Covid-19 newydd, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mehefin 2020. Mae hon yn atodiad i'r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd ac yn ymateb i effeithiau economaidd byrdymor, tymor canolig a hirdymor yr argyfwng. Bydd effeithiau economaidd Covid-19 yn cael eu teimlo am gryn amser ac felly, mae ystod o ymyriadau eisoes wedi'u cymeradwyo ac yn y cyfnod cyflawni, megis yr arolwg busnes, adolygiadau o brosiectau allweddol i bennu addasrwydd ar gyfer y dyfodol, datblygu a chyflawni'r Gronfa Her a'r Gronfa Safleoedd Strategol a gwaith cynnar ar Gronfa Buddsoddi mewn Arloesedd;*
- *Cynhaliwyd hunanwerthusiad llawn o'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY). Roedd hwn yn edrych ar bwrbas, prosiectau, prosesau a pherfformiad. Roedd hefyd yn cyd-daro ag adolygiad o'r FfBY a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru i ddeall a oedd buddsoddiadau FfBY yn cael eu gwneud yn unol â'r polisi a nodwyd. Gwnaeth hyn hefyd arwain at waith gan AON ar Bolisi Risg diwygiedig a datblygiad Polisi Buddsoddi Cyfrifol a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2021;*
- *Nododd 2020/21 ddiwedd cyfnod cyntaf Gateway a chynhyrchu adroddiad gwerthuso terfynol gan arweinydd y Panel Gwerthuso Cenedlaethol (SQW), a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020. Cafodd Adroddiad Ategol cysylltiedig y Cyfarwyddwr ei lunio a'i gyflwyno hefyd i'r broses Gateway a oedd yn cynnwys sesiynau her, cyfweiliadau a chyfarfodydd Gweinidogol. Adroddwyd ar ganlyniad llwyddiannus Adolygiad Gateway ym mis Mai 2021;*

- *Yn dilyn hyn ac yn edrych ymlaen at gyfnod 5 mlynedd nesaf Gateway, cynhyrchwyd a chymeradwywyd Cynllun Busnes Strategol newydd gan y Cabinet Rhanbarthol ym mis Rhagfyr 2020. Mae hwn yn nodi'r amcanion 'Pump am Bump' i gyfeirio cynnydd dros y cyfnod nesaf – Adeiladu'n Ôl yn Well, Adeiladu Dinas-ranbarth, canolbwyntio ar Ymchwil a Datblygu, cymorth i'r Clwstwr a'r argyfwng hinsawdd;*
- *Cynhyrchwyd Prosbectws Buddsoddi fel ffordd o ddylanwadu ar yr agenda Codi'r Gwastad. Cyflwynwyd hwn i LIC a LIDU ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet Rhanbarthol ym mis Mawrth 2021;*
- *Cynhyrchwyd dogfen 'Prosbectws ar gyfer Esblygiad a Chyflawni', gan arwain P-RC ar bob rhan o'r cyfnod pontio i'r Cydbwyllgorau Corfforaethol newydd. Cymeradwywyd ymateb llawn i ymgynghoriad LIC gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020 ac fe'i cyflwynwyd ym mis Ionawr 2021. Mae gwaith bellach ar y gweill ar weledigaeth a chenhadaeth, swyddogaethau ac opsiynau darparu llywodraethu cyn y dyddiad 'gweithredu' ar 28 Chwefror 2022;*

Mae natur gynyddol y rhaglen, esblygiad i strwythur corfforaethol newydd ac yn gyffredinol, cwmpas, ehangder a maint 'P-RC' bellach yn golygu bod 12 is-grŵp o bwyllgorau a byrddau cynghori. Mae rhestr lawn o ddogfennau polisi, adroddiadau, strategaethau a strwythurau newydd yn cael eu datblygu yn unol â'r ddarpariaeth, tra bod prosiectau newydd yn parhau i gael eu cymeradwyo drwy'r FfBY. Mae hwn yn ofod deinamig sy'n tyfu'n gyflym ac mae angen goruchwyliaeth a chefnogaeth gyson. Mae swydd Pennaeth Llywodraethu, Cyfathrebu a Pholisi newydd wedi'i sefydlu i weithio ar hyn.

Yn olaf, o ystyried bod y gyfran gyntaf o brosiectau cymeradwy ar waith, datblygwyd dull cynhwysfawr o fonitro'r rhaglen, sy'n adeiladu ar brofiadau Gateway, gofynion LIDU a gweithdrefnau mewnol yn barod ar gyfer Ch1 2021/22. Cymeradwywyd adroddiad ar y trefniadau ar gyfer Llywodraethu a Monitro gan y Cabinet ym mis Mawrth 2021.

Datblygiadau Allweddol mewn Perthynas â Materion Sicrwydd yn ystod 2020/21

10. Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn allweddol i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o ran datblygiadau mawr, sydd wedi cryfhau lefel y sicrwydd ond hefyd arwain at ddigwyddiadau annisgwyl, sydd wedi profi trefniadau llywodraethu'r Fargen Ddinesig, systemau rheolaeth fewnol ac felly ei gwydnwch cyffredinol wrth ymdopi â digwyddiadau o'r fath. Nodir gweithgareddau allweddol yn hyn o beth yn natganiad y Cyfarwyddwr uchod.

Y Fframwaith Llywodraethu

11. Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cynnwys dwy egwyddor graidd a phum rheol ategol. Mae egwyddorion A a B yn treiddio i egwyddorion C i G ond mae llywodraethu da yn ddeinamig ac mae Cydbwyllgor BDdPRC yn ymrwymo i wella llywodraethu'n barhaus trwy broses werthuso ac adolygu.

Egwyddorion Craidd

- a) Ymddwyn gyda hygredd, dangos ymrwymiad cryf wrth werthoedd moesol a pharchu rheolaeth y gyfraith;
- b) Sicrhau natur agored a chynnwys y rhanddeiliaid yn gynhwysfawr.

Egwyddorion Ategol

- c) Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;
- d) Penderfynu pa ymyriadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni cymaint o'r canlyniadau a fwriedir â phosibl;
- e) Datblygu capasiti'r corff, yn cynnwys gallu ei dîm arwain a'r unigolion sy'n rhan o hwnnw;
- f) Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn;
- g) Rhoi ymarferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cynnig atebolrwydd effeithiol.

Proses Asesu DLIB 2020-21

12. Yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cydbwyllgor adroddiad ar 'Sefydlu Swyddfa'r Fargen Ddinesig – Cynllun Ailstrwythuro ac Adnoddau', ac yn ystod 2019/20 recriwtiodd y Cyfarwyddwr yr Uwch Dîm Arwain. Felly, yn unol â'r flwyddyn flaenorol, arweiniwyd proses asesu DLIB ar gyfer 2020/21 gan Uwch Dîm Arwain Swyddfa'r Fargen Ddinesig, gyda mewnbwn a chefnogaeth gan y Corff Atebol a rhanddeiliaid allweddol eraill.
13. At hynny, mae asesiad y DLIB yn cynnwys ac yn cydnabod 'Gwaith Arall sy'n Gysylltiedig â Llywodraethu Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' a wnaed yn ystod y flwyddyn. Nodir y manylion yn adran 5 isod.
 1. Adroddodd y swyddogion canlynol â chyfrifoldebau llywodraethu allweddol am raddau'r sicrwydd y gallent ei ddarparu yn eu rôl yn erbyn yr 20 o ddatganiadau sicrwydd arfer da. Cynhaliwyd yr asesiad mewn dau gam, gyda'r cam cyntaf yn cysylltu datganiadau penodol â chyfrifoldebau swyddogaethol (fel y nodir mewn cromfachau isod).
 - Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor (Datganiadau 10, 15, 17, 18 a 19);
 - Swyddog Monitro'r Cydbwyllgor (Datganiadau 11, 12 a 13)
 - Tîm craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Datganiad 16)
 - Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig (pob Datganiad arall);
 - Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd (pob Datganiad arall);
 - Arweinydd Marchnata a Chyfathrebu (Datganiadau 4, 5, 6 a 9)
 2. Rhoddwyd manylion DLIB 2019-20 i bob swyddog a gofynnwyd iddynt ddarparu asesiad cychwynnol o faint o sicrwydd y gellid ei ddarparu yn erbyn eu datganiadau priodol perthnasol yn 2020/21. Cafodd yr ymatebion cychwynnol

eu coladu ac yna, fel ymarfer ail gam, dosbarthwyd yr 20 datganiad llawn i swyddogion i'w hystyried yn ehangach.

3. Amlinellir y datganiadau yn 'Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da' CIPFA, ac mae'r asesiad yn cydnabod datblygiad ac esblygiad parhaus y Cydbwyllgor, gan nodi bod rheolaethau mewn perthynas â rhai Datganiadau mewn cyfnod o bontio.
4. Nod yr ymatebion oedd nodi lefel y sicrwydd y gellid ei darparu, gan ddefnyddio system Coch, Ambr, Gwyrdd ehangach, a gafodd ei hehangu i alluogi 5 categori o sgoriau i gael eu cymhwyso, o gymharu â'r 3 safonol. At ddibenion yr asesiad, diffinnir y sgoriau fel a ganlyn:
 - **GWYRDD** - Yn dangos lefel GREF o sicrwydd;
 - **GWYRDD/AMBR** – Yn dangos lefel GREF/GYMEDROL o sicrwydd, ond yn dangos yr angen i ystyried a ellid rhoi rhagor o reolaethau ar waith er mwyn cryfhau lefel y sicrwydd;
 - **AMBR** – Yn dangos lefel GYMEDROL o sicrwydd, a ystyrir i fod yn foddhaol, ond cydnabyddir bod angen rhoi rhagor o reolaethau ar waith i gryfhau lefel y sicrwydd, ac yn nodi'r camau gweithredu gofynnol sydd angen eu cymryd;
 - **AMBR/COCH** – Yn dangos lefel GYMEDRDOL/GYFYNGEDIG o sicrwydd a gallai ddod yn 'broblem llywodraethu sylweddol' oni bai yr eir i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth trwy gam(au) gweithredu y cytunwyd arnynt.
 - **COCH** - Yn dangos lefel GYFYNGEDIG o sicrwydd, h.y. 'nodwyd mater llywodraethu sylweddol' sydd angen cael ei gydnabod yn ffurfiol a'i ddatrys trwy gam gweithredu y cytunir arno fel mater o flaenoriaeth.
5. Er mwyn mesur barn ehangach rhanddeiliaid, cyhoeddwyd y datganiadau drafft, yr ymatebion a'r sgoriau arfaethedig i aelodau dethol o'r Cabinet Rhanbarthol (Cadeirydd ac Is-gadeiryddion), y Panel Buddsoddi, y Bartneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol a Bwrdd y Rhaglen. Roedd y broses hon yn ceisio asesu lefel y dilysu ehangach y gellid ei phriodoli i'r broses a'r canfyddiadau drafft.
6. Daethpwyd â sylwadau'r swyddog unigol a'r rhanddeiliaid ehangach at ei gilydd i lunio'r asesiad cyfunol terfynol. Pan gafodd rhagor o gamau gweithredu eu nodi, cafodd y rhain eu cynnwys fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ffurfiol fel y rhestrir yn yr adran casgliadau isod.
7. I sicrhau perchnogaeth, mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi'r manylion canlynol parthed pob cam gweithredu:
 - Perchennog y cam;
 - Dyddiad targed ar gyfer cwblhau;
 - Mecanweithiau ac amllder er mwyn adolygu cynnydd.

8. Ar ôl cymeradwyo, bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro a llunnir adroddiadau rheolaidd yn ei erbyn drwy 2021/22.

Diweddariad ar Ddatganiadau Buddiannau

14. O ystyried y ffocws mewn blynyddoedd blaenorol ar y broses ar gyfer Datgan Buddiannau, gan atgyfnerthu'r cyd-destun polisi a'r raddfa ranbarthol sy'n berthnasol i ddatgeliadau o'r fath, mae ymdrechion yn 2020/21 wedi canolbwyntio ar adolygu a chynnal y system yn rheolaidd. Ym mis Ebrill 2020 ac eto ym mis Mai 2021 gofynnwyd i bob partneriaeth a bwrdd cynghori ddiweddarau ac adolygu datganiadau buddiannau ac mae'r rhain ar gael i'r cyhoedd drwy wefan P-RC, gan sicrhau bod y prosiect yn agored, yn dryloyw ac yn atebol.
15. Felly, cynhaliwyd ymarfer cynhwysfawr ar gyfer 2020/21 i gasglu a diweddarau Datgeliadau Buddiannau ar gyfer pob Pwyllgor, Is-bwyllgor, Bwrdd a grŵp swyddogion allweddol P-RC. Defnyddiwyd ffurflenni wedi'u diweddarau sy'n ceisio cofnodi buddiannau ar sail ranbarthol, yn hytrach na lleol, a chânt eu tracio drwy'r 'Gofrestr Datgelu Buddiannau'.
16. Ceir crynodeb o'r 'Gofrestr Datgelu Buddiannau' yn Atodiad 2a. Mae hwn yn dangos, fel ar 9 Tachwedd 2021, y cyflawnwyd cyfradd gydymffurfio o 99.0% (ffurflenni wedi'u cyhoeddi, eu dychwelyd a'u huwchlwytho i'r wefan) mewn perthynas â'r 97 aelod, swyddog a chyfranogwr perthnasol arall sy'n cefnogi gweithgareddau P-RC yn uniongyrchol. Bydd nodyn atgoffa blynyddol o leiaf yn cael ei roi i bob Grŵp er mwyn sicrhau bod datganiadau'n parhau i fod yn gyfredol.

Gwaith Arall sy'n Gysylltiedig â Llywodraethu Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

17. Yn ogystal â'r broses asesu llywodraethu benodol a amlinellir uchod, ymgwymerwyd â nifer o adolygiadau eraill sy'n ymwneud â llywodraethu ers sefydlu'r Cydbwyllgor. Mae'r gwaith hwn a'i ganfyddiadau'n ategu a chryfhau'r broses asesu DLIB yn gyffredinol.

Archwilio Mewnol

18. Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i Fargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda'r Corff Atebol.
19. Er mwyn galluogi'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl, paratowyd cynllun archwilio treigl 5 mlynedd, i ddechrau am y cyfnod o 2017/18 i 2021/22, ac mae'n rhestru'r gwaith arfaethedig sy'n ofynnol bob blwyddyn, er mwyn sicrhau'r lefel briodol o sicrwydd.
20. Felly, mae 2020/21 yn cynrychioli pedwaredd flwyddyn y cynllun archwilio mewnol. Roedd gweithgarwch archwilio yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cwblhau'r archwiliad mewn perthynas â 2019/20 (cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ar ei gyfer

ym mis Mawrth 2020). Roedd canfyddiadau'r archwiliad hwnnw, ynghyd â'r argymhellion y cytunwyd arnynt, yn cynnwys DLIB 2019/20. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ac Amcanion Archwilio ar gyfer archwiliad 2020/21 ym mis Mehefin 2021, cwblhawyd gwaith maes archwilio yn ystod cyfnod yr haf a chyhoeddwyd yr adroddiad archwilio ym mis Medi 2021.

21. Daeth y sicrwydd archwilio i'r casgliad, "Effeithiol gyda Lle i Wella". Cyhoeddwyd set ddrafft o Argymhellion ac mae Cynllun Gweithredu yn cael ei gwblhau gyda'r Uwch Dîm Arwain.

Archwiliad Allanol (Archwilio Cymru)

22. Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am archwilio Cydbwyllgor BDdPRC yn allanol.
23. Paratoir a chytunir ar Gynllun Archwilio Blynyddol gyda'r Cydbwyllgor, gyda 2020/21 hefyd yn cynrychioli pedwaredd flwyddyn y gwaith archwilio allanol. Yn ogystal â gwaith archwilio ariannol, mae staff archwilio perfformiad o Archwilio Cymru yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion y Fargen Ddinesig a chynhaliwyd yr Archwiliad Perfformiad canlynol yn 2020/21:

Adroddiad 1: 'Adolygiad Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY) Archwilio Cymru'

Dechreuwyd: Mai/Mehefin 2020
Cyhoeddwyd Llythyr: Rhagfyr 2020

Ystyriodd y Cydbwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad yn ffurfiol yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2021, gyda Llythyr Archwilio Cymru yn cael ei atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad Cabinet hwnnw ac yn cael ei gyhoeddi'n llawn yn gyhoeddus.

<https://www.cardiffcapitalregion.wales/wp-content/uploads/2021/03/item-10-iif.pdf>

Roedd y canfyddiadau'n dangos yn fras fod cyflwyno'r FfBY (yn seiliedig ar ddilyniant dau fuddsoddiad ar wahân) wedi caniatáu i gynigion symud ymlaen yn unol â'r broses FfBY a'u bod yn destun craffu a thrafod priodol.

Tynnwyd sylw at rai mân faterion i'w gwella ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y gwaith adolygu ehangach drwy ddatblygu a chyflawni Cynllun Gweithredu'r FfBY. Yn hyn o beth, barnwyd bod gwaith Archwilio Cymru yn amserol, yn ychwanegu gwerth ac yn helpu i ailddatgan ac atgyfnerthu ffocws y Cynllun Gweithredu.

Crynodeb Sicrwydd

24. Roedd yr ymarfer asesu DLIB a gwblhawyd yn gynhwysfawr, wedi'i gynnal yn unol â Fframwaith Darparu Llywodraethu Da CIPFA ac yn ystyried pob un o'r 20 o

ddatganiadau sicrwydd arfer da, gan dderbyn ei bod yn bosibl na fydd rhai datganiadau'n uniongyrchol berthnasol i drefniant y cydbwyllgor.

25. Gan adeiladu ar y sylwadau sydd wedi'u cynnwys yn DLIB 2019/20, mae Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig wedi darparu'r datganiad canlynol parthed y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2020/21:

2020/2021 oedd cyfnod monitro olaf Gateway 1, cynhyrchodd P-RC ei Hadroddiadau Ategol i eistedd ochr yn ochr ag adroddiadau gwerthuso terfynol SQW – gan gyflawni'n llawn yr holl ofynion o dan y Fframwaith Gwerthuso Cenedlaethol a'r Cynllun Gwerthuso Ardal. O ystyried ei bod yn ofynnol i Flaengynlluniau Busnes gael eu cynhyrchu 90 diwrnod cyn diwedd y flwyddyn, yn dilyn Diwrnod i Ffwrdd y Cabinet Rhanbarthol ym mis Hydref 2020, cynhyrchwyd a chymeradwywyd y Cynllun Busnes Strategol a'r Cynllun Busnes Blynyddol 5 mlynedd (2021-26) gan y Cabinet Rhanbarthol ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r rhain yn nodi'n glir y weledigaeth gan ddechrau gyda 'Phump am Bump' a'r ffocws ar Adeiladu'n Ôl yn Well, adeiladu capasiti Ymchwil a Datblygu, datblygu'r Brifddinas-ranbarth, Clystyrau a dull sy'n seiliedig ar bolisi o Godi'r Gwastad. Mae'r Cynllun Busnes Blynyddol cyntaf, fel is-set o'r Cynllun Busnes Strategol 5 mlynedd, yn dechrau nodi'r set gyntaf o gamau gweithredu allweddol a fydd yn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth a nodau'r cynllun tymor canolig.

Ar gyfer 2021/22, bydd y prif faes ffocws ar y pontio cyfreithiol i gorff corfforaethol cydymffurfiol ac effeithiol drwy weithrediad deddfwriaeth Cydbwyllgor Corfforaethol newydd. Bydd hyn yn gofyn am ffocws ar: Genhadaeth a Gweledigaeth; Dyletswyddau a Swyddogaethau Uniongyrchol ac Opsiynau Llywodraethu. Bydd pum ffrwd waith yn cael eu sefydlu ar y Gyfraith a Llywodraethu, Cyllid, AD, Swyddogaethau Newydd a Chyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Bydd hyn yn adrodd i Fwrdd Pontio i'w argymhell wedyn i'r Cabinet Rhanbarthol a bydd angen pennu cyllideb statudol y CBC heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr 2022.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

26. O ganlyniad i ymgymryd â'r broses asesu a amlinellir uchod, daethpwyd i'r casgliad y gellir darparu sicrwydd CRYF yn erbyn 12 datganiad, gydag 7 datganiad arall yn cael eu graddio fel CRYF/CYMEDROL. Mae 1 datganiad (Datganiad 2) wedi'i gategoreiddio fel un sy'n rhoi sicrwydd CYMEDROL.
27. Ni chafodd unrhyw 'faterion llywodraethu sylweddol' eu nodi parthed yr 20 o ddatganiadau sicrwydd arfer da yn 2020/21.
28. Ceir crynodeb o'r sgoriau mewn perthynas â'r 20 datganiad sicrwydd arfer da yn Nhabl 1 isod, gyda manylion pob datganiad, systemau rheolaeth fewnol, sgoriau a chymau pellach sydd eu hangen wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 2b.

Tabl 1. - Crynodeb o Sgoriau Sicrwydd 2020/21

Sgôr	Cyfanswm	Cyf. Datganiad Sicrwydd	Manylion Llawn
-------------	-----------------	--------------------------------	-----------------------

Cryf	12	Datganiadau: 3, 4, 5, 6, 9, 11, 12, 15, 17, 18, 19 a 20	Atodiad 2d
Cryf/Cymedrol	7	Datganiadau: 1, 7, 8, 10, 13, 14 ac 16	Atodiad 2d
Cymedrol	1	Datganiad 2	Atodiad 2d
Cymedrol/Cyfyngedig	0	Dd/B	Dd/B
Cyfyngedig	0	Dd/B	Dd/B

Casgliadau a'r Camau Nesaf (Cynllun Gweithredu)

29. Mae'r asesiad a gwblhawyd mewn perthynas â Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 yn dangos gwelliant pellach yn y sgôr sicrwydd ar gyfer 2 ddatganiad (Datganiadau 3 a 4), tra bod y sgôr ar gyfer 17 o'r 18 datganiad sy'n weddill wedi aros yr un fath.
30. Mae'r sgôr ar gyfer Datganiad 7 wedi'i newid o CRYF i CRYF/CYMEDROL. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r angen i ddwyn ynghyd ganfyddiadau darnau allweddol o waith a wnaed yn ystod y flwyddyn e.e. Adolygiad FfBY, Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg ac ati. Bydd hyn yn arwain at strategaeth wedi'i halinio a'i chydlynu'n llawn a fydd yn gwella'r FfBY wrth symud ymlaen, ond a fydd, yn bwysig, yn addas i'r diben ar gyfer pontio i strwythur Cydbwyllgor Corfforaethol yn y dyfodol.
31. Nododd yr asesiad y gellir darparu sicrwydd CRYF ar gyfer 12 o'r 20 o ddatganiadau sicrwydd arfer da. Bydd y meysydd hyn yn cael eu 'hadolygu'n barhaus' gan swyddogion i sicrhau bod y safonau sicrwydd uchel yn parhau i fod yn berthnasol wrth i'r Fargen Ddinesig esblygu ac aeddfedu.
32. Penderfynwyd ar sgôr o CRYF/CYMEDROL ar gyfer 7 o'r 8 datganiad sicrwydd sy'n weddill, gyda'r datganiad terfynol yn cael ei asesu fel CYMEDROL. Mae'r broses asesu wedi nodi 7 o gamau gweithredu ar wahân, a fydd, pan gânt eu gweithredu, yn ceisio cryfhau ymhellach y lefelau sicrwydd y gellir eu rhoi yn erbyn yr 20 datganiad arfer da.
33. Mae'r camau y cyfeirir atynt uchod wedi'u cynnwys fel rhan o Gynllun Gweithredu DLIB, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 2c. Bydd y camau hyn yn cael eu cymryd yn ystod 2021/22 a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet fel rhan o'r trefniadau adrodd perfformiad chwarterol.
34. Yn olaf, mae 'Gwaith Arall sy'n Gysylltiedig â Llywodraethu' wrthi'n cael ei gwblhau. Unwaith y bydd adroddiadau wedi'u cwblhau, eu cyhoeddi a'u cytuno, bydd y Cydbwyllgor yn ystyried ac yn ymateb yn ffurfiol i unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion a gyflwynwyd.

Cod Rheoli Ariannol CIPFA 2019

35. Mae 2020/21 yn flwyddyn 'gysgodol' ar gyfer gweithredu Cod Rheolaeth Ariannol (RhA) CIPFA. Un o nodau allweddol y Cod RhA yw gwella gwydnwch ariannol sefydliadau drwy ymgorffori safonau rheoli ariannol gwell. Fel y cyfryw, bydd yr adolygiad blynyddol yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu perthnasol o asesiad cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn o'r graddau y mae trefniadau rheoli ariannol y Cydbwyllgor yn cydymffurfio â'r Cod RhA.
36. Paratowyd papur gwaith sy'n sail i hunanasesiad yn erbyn chwe deg wyth o gwestiynau a amlinellir yn y cod, gan nodi a yw Cydbwyllgor BDdPRC yn bodloni'r gofynion (Ydy / Nac ydy / Yn rhannol), ond yn bwysig mae'n darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r asesiad a wnaed.
37. Daeth yr asesiad i'r casgliad fod chwech (neu 9%) o asesiadau 'Nac ydy' – mae'r rhain yn ymwneud â chwestiynau sydd i raddau helaeth 'Ddim yn Berthnasol' i'r Cydbwyllgor ar ei ffurf bresennol. Roedd wyth (neu 12%) o asesiadau 'Yn rhannol' ac yn ymwneud i raddau helaeth â materion capasiti, a oedd eisoes wedi'u nodi ac y rhoddir sylw iddynt fel rhan o'r broses o bontio i'r trefniadau CBC newydd (Model Codi a Symud). Mae'r pum deg pedwar (neu 79%) o gwestiynau sy'n weddill wedi'u hasesu fel 'Ydy', gyda thystiolaeth glir yn cael ei darparu i gefnogi'r asesiad a wnaed.

Ardystiad gan Gadeirydd Cydbwyllgor Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chyfarwyddwr y Fargen Ddinesig.

_____	_____
Y Cyngorydd Anthony Hunt (Cadeirydd)	Dyddiad
_____	_____
Kellie Beirne (Cyfarwyddwr)	Dyddiad